Prosiect Craffu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Trefniadau Etholiadol yng Nghymru
Adroddiad Interim

Tachwedd 2005

Rhagarweiniad

Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2005, cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer ei Brosiect Craffu ar y Trefniadau Etholiadol yng Nghymru:

- Ystyried materion yn ymwneud â threfniadau etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn arbennig, cofrestru pleidleiswyr, canran y bobl sy'n pleidleisio, y bobl ifanc sy'n pleidleisio a phleidleisio dwyieithog.
- Ystyried gwahanol fesurau a ddefnyddir o fewn systemau gwleidyddol eraill ar gyfer gwella'r ganran sy'n pleidleisio, cofrestru pobl ifanc a'u hannog i bleidleisio, ac i ba raddau y gallent gael eu cymhwyso i etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru.
- Ystyried a oes unrhyw fesurau ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y trefniadau pleidleisio yng Nghymru yn gwbl gynhwysol.
- Cyflwyno argymhellion.

Diben yr adroddiad interim

Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref, cytunodd y Pwyllgor i graffu ar y Mesur Gweinyddu Etholiadol gyda'r bwriad o sicrhau y caiff safbwyntiau sefydliadau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y Mesur yng Nghymru eu hanfon i'r Pwyllgorau sy'n delio â hynt y Mesur drwy'r Senedd.

O ganlyniad i'r amserlenni byr dan sylw, cytunwyd y dylid paratoi adroddiad interim ar eu prosiect craffu ac y dylid ei anfon at y Pwyllgor Sefydlog sy'n delio â'r Mesur. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r materion a ddeilliodd o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hyd yn hyn a chasgliadau'r Pwyllgor a seiliwyd ar y dystiolaeth honno.

Creda'r Pwyllgor fod y materion a godir yn yr adroddiad hwn yn bwysig mewn cysylltiad â'r Mesur Gweinyddu Etholiadol ac mae'n annog y rheini sy'n craffu ar y Mesur yn ystod y cam Pwyllgor i ystyried y materion hyn.

Methodoleg

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y sefydliadau canlynol:

- Scope Cymru
- The Pollen Shop
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
- Y Comisiwn Etholiadol
- Roger Morris – Arbenigwr Trefniadau Etholiadol

- Bryn Parry Jones – Swyddog Canlyniadau Cymru (Etholiadau Ewrop)

Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â'r Iseldiroedd, Denmarc a Gwlad Belg rhwng 5 a 8 Medi 2005 i gael rhagor o dystiolaeth mewn cysylltiad â chofrestru pleidleiswyr; cyfranogiad pobl ifanc; pleidleisio'n electronig a phleidleisio'n ddwyieithog.

Materion a godwyd gan y dystiolaeth

Cofrestru pleidleiswyr

Y prif faterion a amlygwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor oedd:

- Mae cofrestru pleidleiswyr yn hanfodol yn y DU. Mae'n bosibl y caiff pobl a fydd yn methu â chwblhau ffurflenni cofrestru yn ôl yr angen, ddirwy ond anaml iawn y caiff pobl eu herlyn.[1]

- Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Bryn Parry Jones, Prif Swyddog Canlyniadau Cymru:

> The system of voter registration is the keystone for running a good election. I know that I and my colleagues spend a lot of time seeking to ensure that we have as good an electoral register as possible. The canvass undertaken every year is extensive. The forms of information used by local authorities are available for this purpose, such as when new houses are completed, and we take account of the registers of deaths and so forth. We seek to use other sources of information to keep that register in good order. However, there are limitations in our capacity, due to data protection, to be able to achieve the sort of information sharing that might be useful, in terms of ensuring that the register is as close to complete as possible, and also to avoid the possibilities of fraud.

- **Cofrestru cartrefi vs cofrestru unigolion**

  Mynegwyd sawl safbwynt o ran cofrestru unigolion yn hytrach na chofrestru cartrefi:

  - Amlinellodd Roger Morris sut roedd canfyddiadau cyhoeddus yn tanlinellu'r angen am newid mewn dulliau cofrestru:

    > The old system *[of household registration]* was tried and tested; it worked well for a long time and was well understood, but it was paper based and had limitations in terms of the trustworthiness of the head of the household responding appropriately and so forth.

  Byddai cofrestru unigolion yn hytrach na chartrefi yn debygol o gynyddu cost y canfasio, yn arbennig os nad ystyrir y gosb am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad am wybodaeth fel dull real ac effeithiol o annog unigolion i gymryd rhan. Gallai hefyd arwain at gofrestr llai cywir os yw canran y bobl sy'n pleidleisio'n isel. Hefyd,

---

[1] HofC, Nodyn Ymchwil SN/PC/00954, *Compulsory Voting*, 2003
http://www.parliament.uk/commons/lib/research/notes/snpc-00954.pdf

mae cofrestru cartrefi yn ffordd o gofrestru unigolion sydd â phroblemau llythrennedd neu anawsterau eraill.

- Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi annog Llywodraeth y DU i gyflwyno system gofrestru etholiadol ar gyfer unigolion, ac ystyrir y system hon i fod y bloc adeiladu allweddol i sicrhau y gall pawb bleidleisio'n ddiogel heb orfod mynd i'r orsaf bleidleisio.

Er mwyn gallu cofrestru unigolion, byddai angen gwneud penderfyniad o ran y sail ar gyfer cofrestru unigolion. Er enghraifft, a ddylai fod yn seiliedig ar gyfeiriad neu ar faen prawf personol fel rhif Yswiriant Gwladol (YG) neu ddyddiad geni? Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin, nododd SOLACE:

> National Insurance numbers would appear to be a most attractive solution. It is understood that most people have an NI number, though it is not blanket coverage. Our society is very mobile and this is always a problem with an address-based system.

- Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, nododd Scope Cymru a'r Pollen Shop:

> Overall registration of a number of groups will be reduced if individual registration is introduced without care. These include young people, especially those living in houses of multiple occupation, people with low literacy, people who do not speak English as a first language, older people and people with learning difficulties. These groups will have to be directly targeted with specific voter registration campaigns. The National Assembly could take a lead in starting this process now.
>
> The process of individual registration needs to be inclusive. This does not just mean producing the forms in accessible formats but also looking carefully at what security information is required. For example, the requirement to supply a national insurance number would create a barrier for many people.

Yn ei dystiolaeth, nododd Gwilym Morris:

> You will also have to allow mass or group registration or give people in a family unit the choice of registering everybody and then getting people to sign for it, or have longer registration periods. Again, one of the things that they have talked about in Northern Ireland is having indefinite registration, so you go on the register and you do not have to reregister, and that follows you about, and there is a process of checking it as time goes on.

- Un cyferbyniad allweddol rhwng y DU a'r gwledydd yr ymwelwyd â hwy yw'r ffordd y cofrestrir pleidleiswyr. Ym mhob un o'r tair gwlad yr ymwelwyd â hwy caiff y broses o gofrestru pleidleiswyr ei chysylltu â'r gofrestrfa sifil neu gofrestrfa dinasyddion cenedlaethol. Yn ogystal, nid yw rhestrau etholiadol yn gyhoeddus ac felly nid ydynt ar gael i bleidiau gwleidyddol sy'n golygu nad yw'r math o ganfasio sy'n un o nodweddion etholiadau yn y DU yn digwydd.

Cynyddu'r ganran sy'n pleidleisio

Cytunodd yr holl dystion fod gostyngiad yn y ganran sy'n pleidleisio yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi.

- **Cynnwys Pobl Ifanc**

  - Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Gwilym Morris:

> With regard to turnout, we have raised several issues and concerns, and we think that turnout is dependent on the accessibility and usability of an election. Some work that we are doing currently for the Electoral Commission will again show how friendly a place groups of young people and those with low literacy skills feel a polling station is and whether they think it an intimidating place to go to with official documentation and how that may prevent them from voting. We have also found quite a bit of evidence that those issues also reflect the experiences of older people. As people get older, they become more intimidated by very official buildings, especially those that are just ad hoc buildings. They are not like a council building that can be accessible. In Wales, especially with regard to the turnout for Assembly elections, you will have to think about that kind of thing. The other issue we have found is how relatively important people think the election is. That is at a national level, at a Welsh level, but it is also at a community level, in terms of whether they see the Assembly Members and the Assembly working for them. Your role in terms of voter engagement, as politicians, is really important in that regard. If your constituents think that you are important, and the job that you do is important, they will vote for you. That sounds obvious, but we have found some direct evidence of that.

Mae'r ganran o bobl ifanc sy'n pleidleisio yn broblem ledled gwahanol wledydd. Yn y DU, roedd gwahaniaethau o ran oedran yn y ganran a bleidleisiodd yn amlwg yn yr Etholiad Cyffredinol yn 2001. Yn gyffredinol, roedd pobl iau na 34 oed yn llai tebygol o bleidleisio na'r rhai mewn grwpiau oedran hyn. Yn ystod Etholiadau 2003 y Cynulliad dim ond 16 y cant o bobl iau na 25 oed a bleidleisiodd.

Gellir cysylltu hyn ag agwedd pobl ifanc ac mae nifer o astudiaethau yn bodoli yn seiliedig ar ddata Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain a gyhoeddir bob 4 blynedd. Canfu astudiaeth ar gyfer Addysg a Sgiliau fod lefelau diddordeb gwleidyddol ymhlith pobl ifanc wedi gostwng rhwng 1994 a 1998 ac eto yn 2003. Ym 1994, dywedodd 38 y cant fod ganddynt o leiaf rywfaint o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth; yn 2003, roedd hwn yn gymwys i 31 y cant yn unig. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r gyfran a fynegodd nad oed ganddynt unrhyw ddiddordeb o gwbl wedi cynyddu, o ychydig dros chwarter i dros draean.[2]

Dangosodd yr astudiaeth gydberthyniad amlwg rhwng lefelau diddordeb mewn gwleidyddiaeth gan oedolion yn yr un cartref a chyrhaeddiad academaidd. Fodd bynnag, dangosodd data 2003 fod diddordeb mewn gwleidyddiaeth ymhlith pobl ifanc wedi dirywio tra bo

[2] Park, A Phillips M & Johnson M, *Young People in Britain: the Attitudes and Experiences of 12 to 19 Year Olds*, DFES, 2004. http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR564.pdf

lefelau diddordeb ymhlith oedolion wedi parhau'n sefydlog. Noda'r papur:

> A number of possible explanations exist. It is possible, for instance, that parents now are less effective in communicating their own interest to young people. Alternatively, the decline in interest among young people might indicate that they have responded differently to adults to the political events of recent years.[3]

Er bod yna duedd i'r ganran sy'n pleidleisio ddirywio ledled gwledydd Ewrop nid yw hyn wedi bod yn wir yn Nenmarc. Dengys tueddiadau hirdymor gyfartaledd o tua 85 y cant. Y ganran leiaf a bleidleisiodd oedd 82.8 y cant ym 1990.[4] Bu Denmarc hefyd yn llwyddiannus wrth annog grwpiau anodd eu cyrraedd yn y gymdeithas a phobl ifanc i bleidleisio.

- Nododd Anne Birte Pade o'r Uned Etholiadau fod pleidleisio yn arfer cymdeithasol cryf yn Nenmarc. Yn ogystal, bu Denmarc yn llwyddiannus wrth annog grwpiau anodd eu cyrraedd yn y gymdeithas a phobl ifanc i bleidleisio. Mae sefydliadau etholiadol yn Nenmarc, fel y pleidiau gwleidyddol, yn hwyluso'r broses o annog grwpiau gwan i gymryd rhan.

- Mae gan ysgolion yn Nenmarc gynghorau wedi'u hethol sy'n cynnwys dau gynrychiolydd o bob dosbarth. Credai'r tîm Addysg o Gyngor Copenhagen y dylai Pwyllgorau'r Cyngor annog cynghorau ysgolion i roi tystiolaeth yn ystod gwrandawiadau pwyllgorau. Ysgrifennodd y cyngor lawlyfr, *The Pupil's Guide to Democracy*. Mae yna ddisgwyliad yn Nenmarc y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ac mae sefydliadau allanol yn tueddu i ailadrodd y strwythurau gwneud penderfyniadau democrataidd yn yr ysgolion. Awgrymodd y bobl ifanc y cyfarfu'r Pwyllgor â hwy ddisgwyliad cryf y dylent bleidleisio.

- Yn Nenmarc, caiff yr elw o gamblo ei sianelu tuag at sefydliadau ieuenctid a chafodd grwpiau ieuenctid y ddwy blaid y cyfarfu'r Pwyllgor â hwy arian gan y Llywodraeth drwy Gyngor Ieuenctid Denmarc.[5] Golyga hyn eu bod yn annibynnol ar y pleidiau 'gwreiddiol'. Mae gan y Ceidwadwyr tua 2,000 o aelodau ac mae gan y Rhyddfrydwyr tua 3,000. Bydd y pleidiau'n mynd i ysgolion i recriwtio ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn ystod etholiadau.

Effaith pleidleisio drwy'r post

- Mae tystiolaeth hyd yn hyn parthed y ganran sy'n pleidleisio wedi bod yn canolbwyntio ar y cynnydd yn y ganran sy'n pleidleisio drwy'r post o ganlyniad i symud cyfyngiadau a'r holl raglenni peilot ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn unig a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2004. Ymddangosodd nifer o faterion allweddol yngl◊n â'r system, yn arbennig sut i gydbwyso'r cynnydd yn y ganran sy'n pleidleisio yn erbyn materion yn ymwneud â

---

[3] Ibid.
[4] Adroddiad IDEA. *Voter Turnout in Western Europe since 1945*, 2004. http://www.idea.int/publications/voter_turnout_weurope/upload/Full_Reprot.pdf
[5] http://www.duf.dk/web/data.nsf/subindex.htm?readform&UID=8C26C69053B68BB9C1256D430044354B

diogelwch. Pwysleisiodd Roger Morris, a oedd yn gyfrifol am raglen peilot pleidleisio drwy'r post yn unig yn Etholiadau Ewrop yn 2004 yn Nwyrain Canoldir Lloegr, ei bod yn hanfodol sicrhau bod y broses yn eglur a bod gan bobl hyder ynddi er mwyn sicrhau bod pobl yn pleidleisio ac nid oedd cymhlethdod y pecynnau pleidleisio a'r cyfarwyddiadau yn 2004 yn ddefnyddiol:

> When you are confronted with a slab of instructions, you think to yourself, 'Oh my goodness, there is a lot to this, I do not have time, and I will do it later'. In fact, all it really needed to say was, 'Put a cross like you always do, put it in the envelope and shove it in the box'.

- Yn 2004, argymhellodd y Comisiwn Etholiadol i Lywodraeth y DU na ddylid cyflwyno'r holl bapurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau statudol y DU. Awgryma tystiolaeth o ffynonellau eraill, yn cynnwys tystiolaeth i'r Pwyllgor gan Bryn Parry Jones, boblogrwydd cynyddol mewn pleidleisio drwy'r post ymhlith y cyhoedd ond hefyd yr awydd i gadw'r opsiwn o bleidleisio'n bersonol ac i newid y dull o bleidleisio yn ôl yr awydd.

- Mae diogelwch pleidleisio drwy'r post wedi dod yn destun pryder mawr yn dilyn rhai erlyniadau amlwg iawn ar ôl Etholiadau Lleol 2004 yn Lloegr. Darganfu'r Comisiwn Etholiadol fod y pryderon hyn yn canolbwyntio ar y cwmpas ar gyfer achosion o orfodi neu ddylanwad gormodol yn ystod cwblhau papurau pleidleisio. Roedd y rhan fwyaf o'r honiadau a gafwyd gan y Swyddogion Canlyniadau a'r heddlu naill ai'n ymwneud â phleidleiswyr yn cael eu gorfodi i bleidleisio i blaid arbennig, neu â phleidleiswyr yn cael eu gorfodi i gyflwyno eu papurau pleidleisio heb eu cwblhau i rywun arall eu cwblhau. Mae dilysrwydd y gofrestr etholiadol hefyd yn destun pryder.[6]

- Mae'r Comisiwn yn datblygu ei fodel sylfaenol ar gyfer pleidleisio ar gyfer etholiadau statudol a bydd yn rhaid ei fod yn gallu cynnig dewis a diogelwch i etholwyr. Roedd yn argymell:

  - diweddaru'r drosedd o ddylanwad gormodol mewn cysylltiad â phleidleisio drwy'r post;
  - cyflwyno trosedd newydd mewn cysylltiad â chwblhau pleidleisiau drwy'r post yn dwyllodrus;
  - adolygu'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn ôl y galw i sicrhau ei fod yn addas at y diben o ran y defnydd cynyddol a wneir o bleidleisio drwy'r post.

- Mae hefyd yn argymell y dylid defnyddio datganiad diogelwch newydd yn lle'r Datganiad o Hunaniaeth presennol i'w gynnwys gyda phleidleisiau drwy'r post. Dylai hyn ei gwneud yn ofynnol i'r pleidleisiwr lofnodi datganiad mai ef/hi yw'r unigolyn yr anfonwyd y papur pleidleisio ato/ati ac

---

[6] Y Comisiwn Etholiadol, *Delivering Democracy*, 2004 (a) http://www.electoralcommission.gov.uk/files/dms/DeliveringDemocracyfinalcomplete_16306-10935_E_N_S_W_.pdf

ni ddylai fod angen unrhyw fath o lofnod gan dyst. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Bryn Parry Jones:

> There are issues with regard to postal voting…. concerning whether it is possible to introduce a postal-voting system whereby signatures can be checked. That is either signatures on the electoral registration form, the application for postal voting or the declaration form.
>
> On a practical basis, that will be possible only if there is investment in signature recognition machines. From a practical point of view, given the volume of paper that is being handled, there is no way in which any sort of manual check between one form and another would be possible at the time when staff are dealing with an election. We have many hundreds of people per constituency dealing with elections as it is. The process, the timescales that are set, and the expertise that would be necessary to make a judgement on matching one signature to another do not make that a practical proposition without investment.

Pleidleisiau Electronig

Gwelodd y Pwyllgor ddwy system wahanol o bleidleisio electronig mewn gorsafoedd pleidleisio yn yr Iseldiroedd a Gwlad Belg.

- Bu'r Iseldiroedd yn defnyddio peiriannau pleidleisio electronig yn helaeth ers diwedd y 1990au gan ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer pleidleiswyr tramor yn ystod etholiadau 2004 yr UE. Ar y naill law, gellir dadlau y byddai pleidleisio a chofrestru dros y rhyngrwyd yn cynyddu'r ganran sy'n pleidleisio, yn arbennig ymhlith pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol prysur, sy'n gallu ddefnydio'r rhyngwyd yn hawdd ac y mae'r canran ohonynt sy'n pleidleisio yn isel. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd pleidleisio dros y rhyngrwyd ond yn ei gwneud hi'n haws i'r bobl hynny sydd eisoes yn freintiedig ac nid yn cynyddu mynediad ar gyfer grwpiau sydd ar y cyrion. Cyfeirir at hyn fel 'rhaniad digidol'. Mae'r mater o ddiogelwch hefyd yn arwyddocaol. Dylai fod yna safonau cyfreithiol, gwleidyddol, gweithredol a thechnegol i sicrhau bod arferion e-bleidleisio yn cydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol etholiadau democrataidd.

Bu Llywodraeth yr Iseldiroedd yn cynnal prosiectau allweddol i gyflwyno pleidleisiau electronig (sy'n digwydd drwy ddefnyddio peiriannau neu gyfrifiaduron mewn gorsafoedd pleidleisio) a phleidleisio heb orfod mynd i orsaf bleidleisio.

Nododd Cyngor Etholiadol yr Iseldiroedd fod angen i unrhyw system bleidleisio electronig:

- Fod yn gyfrinachol
- Cael ei llunio'n dda
- Bod yn hawdd ei defnyddio
- Caniatáu i gamgymeriadau gael eu cywiro.

Caiff y rhan fwyaf o beiriannau electronig yn yr Iseldiroedd eu cyflenwi gan gwmni o'r enw NEDAP sydd hefyd wedi'u cyflenwi i'r Almaen, Ffrainc a'r UDA.

Fodd bynnag, yn 2004 penderfynodd Llywodraeth yr Iwerddon ganslo ei chynlluniau i ddefnyddio peiriannau NEDAP ar gyfer etholiadau Ewrop o ganlyniad i bryderon nad ydynt yn cynhyrchu cofnod ar bapur o'r bleidlais, ac fe'u defnyddir mewn achosion lle ceir anghydfod neu ailgyfrif pleidleisiau.

Y system SDU a ddangoswyd i'r Pwyllgor oedd system sgrîn gyffwrdd. Mae'r cwmni'n rhoi'r peiriannau a'r feddalwedd i gwsmeriaid ar brydles ac yn eu trosglwyddo i'r gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Defnyddir y system newydd yn 2006.

Yng Ngwlad Belg, cynlluniwyd y system bleidleisio electronig i fod yn debyg iawn i'r system bapur. Bydd pleidleiswyr yn gosod cerdyn yn y peiriant, yn gwneud eu dewisiadau drwy gyffwrdd â'r sgrîn gyda phen ac yna'n rhoi eu cerdyn yn y blwch pleidleisio. Bydd y blwch pleidleisio'n cyfrif y pleidleisiau'n awtomatig a chedwir y cardiau pleidleisio yn y blwch rhag ofn y bydd angen ailgyfrif.

Sicrhawyd Aelodau bod y system yn hawdd iawn i'w defnyddio ac nad oedd wedi wynebu llawer o wrthwynebiad gan unrhyw sector o'r etholaeth.

Mynediad

Mae sicrhau ei bod yn haws i bobl hŷn a phobl anabl bleidleisio yn bwysig o ran y ganran sy'n pleidleisio a thegwch etholiadau. Mae pleidleisio drwy'r post a gorsafoedd pleidleisio â mynediad haws yn ffyrdd o hwyluso'r broses o bleidleisio i bobl anabl. Ym mis Ionawr 2003, cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ganllaw ar arfer gorau i weinyddwyr etholiadol.[7] Er hynny, yn ei adroddiad ar Etholiadau'r Cynulliad yn 2003, canfu'r Comisiwn fod llawer o bobl anabl yn teimlo nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n ddigonol. Hawliodd y Comisiwn hefyd ei fod wedi gweld cynnydd cadarnhaol a graddol yn nifer y gorsafoedd pleidleisio hygyrch yng Nghymru erbyn yr Etholiadau Lleol yn 2004. Fodd bynnag, cynhaliodd Etholiadau'n Eithrio Cymru arolwg o tua 150 o orsafoedd pleidleisio a chanfu nad oedd 77% yn bodloni'r meini prawf o ran hygyrchedd.[8]

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Bryn Parry Jones:

> On accessibility for disabled people, there are practical issues, which will remain the case despite the Disability Discrimination Act 1995. I suspect that a number of buildings that must be used for polling stations, particularly in rural areas where there is little choice, do not have ideal facilities for welcoming disabled people. The Assembly's initiative for the last election, in terms of providing temporary ramps, was welcomed and was taken advantage of. As to the permanent capacity for buildings to be accessed by everyone, when you are dealing with buildings such as chapel vestries, there is little capacity for investment. There are programmes that both the Assembly and local authorities run, but they usually require match funding for that purpose. Therefore, we do not have a universally ideal situation, though people can now access buildings by using temporary ramps.

[7] Y Comisiwn Etholiadol, *Equal Access to Electoral Procedures*, 2003.
[8] Comisiwn Etholiadol Cymru, *Etholiadau Lleol yng Nghymru*, 2004 (b).

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Gwilym Morris:

> As a group, the public buildings used in Wales are probably slightly less accessible than those used in England, Scotland and Northern Ireland. Again, there is some variation within the overall picture in Wales. There has been a big improvement, and many buildings have been made more accessible. Historically, Wales has been far worse but there has been a dramatic improvement.
>
> The large print version of the ballot paper in Wales is better because electoral administrators are doing a better job in Wales, probably because of the work the Assembly, we and other organisations have done. They are learning more about the training process, because being on display means something obvious—it means that the large print ballot paper is at eye level. We include that in every training package and the guidance, and we talk to people about it. In many other places, it does not happen—they stick it nine feet in the air, which is of no use to anyone, or they just do not put it out. That is an indication that people are doing a good job in terms of training their presiding officers to ensure that they are following all the guidelines that we and the Assembly give them. That regional variation is obvious; for example, in Wales, the local authorities that are doing a good job broadly, in terms of access, are doing a very good job in terms of ensuring that large-print ballots are displayed.

Defnyddir blychau pleidleisio symudol yn Nenmarc a'r Iseldiroedd ar gyfer pobl sy'n cael anhawster i gyrraedd yr orsaf bleidleisio.

Yn yr Iseldiroedd, mae'n ofynnol i reolwyr ym mhob gorsaf bleidleisio gynhyrchu adroddiad ar ddiwedd pob etholiad gan amlinellu unrhyw anawsterau a gafwyd yn ystod y cyfnod pleidleisio. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys materion yn ymwneud â mynediad ond hefyd unrhyw broblemau eraill y mae pleidleiswyr wedi dod ar eu traws yn y gorsafoedd pleidleisio. Cyflwynir y rhain i'r swyddog canlyniadau, a disgwylir iddo ef/iddi hi gyflwyno adroddiad ar faterion a godwyd i Gyngor Etholiadol yr Iseldiroedd.

Iaith

Mae gallu ieithyddol yn ffactor pwysig o ran galluogi unigolion i gymryd rhan yn y broses etholiadol, p'un ai o ran cofrestru, neu yn y weithred o bleidleisio, fel deall y papur pleidleisio neu allu dod o hyd i gyngor. Ar hyn o bryd, mae ffurflenni statudol allweddol fel papurau pleidleisio a chofrestru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb i gynigion gan y Comisiwn Etholiadol:

> **31. Returning Officers should have powers to provide sample ballot papers in polling stations on request in a variety of languages, Braille and large print. However, electors would continue to vote on a standard ballot paper.**
> The Government agrees with the aim of this recommendation, and wants to make voting easier and more accessible for all the electorate. However, rather than producing sample ballot papers which may cause confusion, we will enable Returning Officers to deliver improved services, mirroring best practice by supporting the development of guidance in different formats.
> **32. Guidance notes should also be available at each polling station and on ballot papers that explain clearly how to vote. These should be provided in other languages, if deemed necessary, and in a pictorial format.**

> The Government agrees with the aim of this recommendation. However, we do not wish to clutter ballot papers with additional wording and will therefore seek to ensure that additional information is provided at polling stations in different formats reflecting current best practice.
>
> **33. Returning Officers should have statutory powers to provide key statutory forms (including registration forms, polling station notices, etc) in a variety of languages and formats, in addition to English and Welsh. The languages used would be at the discretion of the Returning Officer.**
>
> The Government agrees with this proposal to allow Returning Officers to provide key statutory forms in a variety of languages and formats, in addition to English and Welsh, at their discretion, with the exception of registration forms. The registration forms should in the Government's view be in English and Welsh only, but should be supported by guidance notes in a variety of languages and formats available on request. This will support the electorate but would also clarify that such forms should be completed in English or Welsh only.[9]

Er bod yr holl ddogfennau statudol ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, mae cwestiynau'n parhau i godi o ran y cymorth a'r cyngor sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir profiad o'r problemau hyn mewn gwledydd eraill hefyd lle ceir mwy nag un iaith swyddogol. Daw'r dyfyniad isod o Adroddiad Etholiadau Canada yn 2000.

> For the general election, all election officers were trained to carry out their responsibilities to provide service in both official languages. As usual, returning officers were instructed to recruit bilingual workers. In areas of the country where it was difficult to recruit bilingual staff, an alternative was to give unilingual election workers descriptive cards explaining to electors how to obtain service in either official language. A toll-free 1 800 number for bilingual service from Elections Canada was available, all election-related information was available in both official languages, and our Web site is fully bilingual.[10]

O ran pleidleisio'n ddwyieithog, nododd Bryn Parry Jones er ei fod yn ofyniad hanfodol o ran disgwyliadau pobl yng Nghymru, nid yw o reidrwydd yn gwbl eglur o ran y ffordd y cynhelir etholiadau yn y DU.

Nodir yr arferion presennol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau etholiadol mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

Goblygiadau o ran Costau ac Adnoddau

Mae'r cynnydd yn y ganran sy'n pleidleisio drwy'r post wedi codi materion ynglŷn â gallu Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadol i ymdopi â'r broses etholiadol, fel y nodwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad ar Etholiadau'r Llywodraeth Leol yn 2004 (er mai ffactor arall oedd yr etholiadau cyfun a gynhaliwyd ar yr un diwrnod).[11] Yn ogystal, fel y gwelir uchod, mae cyflwyno system newydd o gofrestru; cyflwyno mesurau diogelwch i sicrhau bod pobl yn parhau i ymddiried yn y system a chyflwyno datblygiadau fel e-

---

[9] DCA, *The Government's Response to The Electoral Commission's report: Voting for change – An electoral law modernisation programme*, December 2004.
http://www.dca.gov.uk/elections/govresp-vfc-cm6426.pdf

[10] Elections Canada, Report of the Chief Electoral Officer of Canada on the 37th General Election Held on November 27, 2000
http://www.elections.ca/content.asp?section=gen&document=stat08&dir=rep/sta&lang=e&anchor=8&textonly=false#8

[11] Op.cit., Y Comisiwn Etholiadol, 2004 (b).

bleidleisio, yn codi cwestiynau o ran gallu staff a 'pherchenogaeth' y broses etholiadol ac mae goblygiadau costau i bob un. Teimla rhai Gweinyddwyr Etholiadol fod rhaglenni peilot ar e-bleidleisio hyd yn hyn wedi peri pryder ymhlith Swyddogion Canlyniadau bod arbenigwyr TG, i raddau helaeth, wedi cymryd dros y broses etholiadol.[12]

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Roger Morris:

> I took part in an Electoral Commission exercise two or three years ago about the cost of elections, but those figures have long since gone out of the window because that everyone will be manning all the usual polling stations over the next few weeks, but at the same time they will be doing a tremendous postal exercise. Therefore, the cost benefit is also changing. We have not touched on that this morning, but, from the point of view of election management, that is an important issue.

Casgliadau dros dro ar y materion a godwyd

Cofrestru pleidleiswyr

- Cytuna'r Pwyllgor fod angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chofrestru pleidleiswyr.

- Dylai unrhyw newid o'r system bresennol o gofrestru cartrefi i system o gofrestru unigolion ystyried y ffactorau canlynol:

  - Gallu presennol gweinyddwyr etholiadol;
  - Cynnydd mewn llwyth gwaith;
  - Cynnydd mewn costau;
  - Y posibilrwydd na all unigolion â phroblemau llythrennedd neu broblemau eraill bleidleisio o ganlyniad i ddiffyg cyfleusterau;
  - Y meini prawf ar gyfer cofrestru unigolion (e.e. yn seiliedig ar gyfeiriad neu ar feini prawf personol);
  - Hyd y cyfnodau cofrestru (e.e. yn flynyddol neu'n llai aml)
  - Defnyddio ffynonellau data eraill er mwyn croesgyfeirio cywirdeb y gofrestr etholiadol.

Cynyddu'r canran sy'n pleidleisio

Cytuna'r Pwyllgor fod angen mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y ganran sy'n pleidleisio, yn arbennig ymhlith pobl ifanc.

- **Y ganran o bobl ifanc sy'n pleidleisio**

- Dylai fod yna gyfleusterau cynyddol yn y cwricwlwm cenedlaethol i addysgu pobl ifanc am bleidiau gwleidyddol a'u rôl yn y broses ddemocrataidd.

---

[12] Sylwadau ar egovmonitor gan Malcolm Dumper, Cyfarwyddwr Gweithredol (Polisi a Materion Allanol), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
http://www.egovmonitor.com/features/evoting2003.html

- Dylid annog penaethiaid i wahodd pleidiau gwleidyddol i ysgolion i hwyluso dadleuon ymhlith disgyblion;
- Dylid rhoi mesurau ar waith i hwyluso'r broses o gynnwys pobl ifanc a gaiff eu hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd o'r gymdeithas ac sy'n teimlo eu bod wedi cael eu dieithrio o'r broses ddemocrataidd;

- **Pleidleisio drwy'r post**

- Mae angen ystyried y system bleidleisio drwy'r post fel un diogel;
- Dylai pecynnau pleidleisio fod yn ddidwyll ac yn syml i'w defnyddio a dylent ddefnyddio iaith sy'n hygyrch i'r rhan fwyaf o bobl;
- Dylai system o wirio llofnodion ar bleidleisiau drwy'r post fod yn gost-effeithlon ac, o ddewis, yn awtomatig;
- Dylai fod yn bosibl i berson newid ei ddull o bleidleisio os yw'n dymuno gwneud hynny.

- **Pleidleisiau electronig**

- Dylid ymchwilio i ddulliau o bleidleisio'n electronig mewn gorsafoedd pleidleisio gyda'r nod o argymell systemau sy'n addas i'w defnyddio yn y DU;
- Dylid nodi ardaloedd ar gyfer treialu'r systemau pleidleisio'n electronig a chadarnhau amserlen ar gyfer y treialon;
- Yn amodol ar ganlyniadau'r treialon, dylai fod gan awdurdodau lleol y rhyddid i ddewis systemau pleidleisio electronig fel eu dewis ddull o gynnal etholiadau.

Mynediad

- Dylid tynhau'r canllawiau ar fynediad corfforol i orsafoedd pleidleisio a dylid egluro'r ymrwymiadau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ym mhob canllaw;
- Dylid pennu targedau ar gyfer awdurdodau lleol o ran y ganran o orsafoedd pleidleisio sy'n gwbl hygyrch i bob math o alluoedd;
- Dylid mynd i'r afael â gallu pobl mewn gofal preswyl amser llawn i bleidleisio a dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn gallu arfer eu hawl i bleidleisio mewn ffordd rydd a hyderus;
- Dylai fod yn ofynnol i reolwyr ym mhob gorsaf bleidleisio gynhyrchu adroddiad ar ddiwedd pob sesiwn bleidleisio yn nodi unrhyw anawsterau a gafwyd o ran mynediad a hygyrchedd.

Iaith

- Dylai fod yn ofynnol darparu cymorth a chyngor dwyieithog i bobl yn ystod y broses gofrestru a phleidleisio ar gyfer pob ardal etholiadol yng Nghymru;
- Dylid asesu'r gofynion o ran darparu cymorth a chyngor mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg i bobl drwy'r broses gofrestru a phleidleisio ym mhob ardal etholiadol yng Nghymru.

Goblygiadau o ran Costau ac Adnoddau

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu yr ystyrir gweinyddu etholiadol fel gwasanaeth israddol yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

- Dylid sicrhau bod gan wasanaethau etholiadol ddigon o arian i alluogi gweinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol;
- Mae'n rhaid ariannu a staffio gwasanaethau etholiadol drwy'r flwyddyn;
- Mae'n rhaid ariannu a darparu digon o adnoddau ar gyfer unrhyw newidiadau i ddyletswyddau a chyfrifoldebau gweinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau.

I gloi

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod angen gwneud newidiadau mewn sawl agwedd ar y ffordd y mae ein system etholiadol yn gweithredu. Fodd bynnag, mae angen ystyried y newidiadau hyn o ddifrif a threfnu amserlen ar gyfer llunio cynigion gofalus ac ystyrlon.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i glywed tystiolaeth ar gyfer ei brosiect craffu a bydd yn cymryd tystiolaeth ar wahân ar y Mesur Gweinyddu Etholiadol. Diben yr adroddiad hwn yw amlinellu barn y Pwyllgor, a seiliwyd ar y dystiolaeth a gafwyd hyd yn hyn.